Roche

Roche a'i gi

Caredigrwydd / gofal / tynerwch

Oes gynnoch chi anifail anwes? Ci, cath, bwji, cwningen neu fochdew? Neu tybed oes gennych chi anifail anwes egsotig fel neidr, neu bry copyn mawr blewog? Rwy'n siŵr bod gennych feddwl y byd o'ch anifail anwes. Dyma i chi stori am gi bach yn mynd ar goll.

Roedd yr hen gi bach wedi mynd ymhell bell o'i gartref. Rhedai yma a thraw i chwilio am ei ffordd adref. Ond roedd yn mynd ymhellach ac ymhellach o'i gartref. Erbyn hyn roedd arno eisiau bwyd a diod. Pan welai rywun yn mynd heibio, rhedai atyn nhw a dechrau ysgwyd ei gynffon. Ond doedd neb o gwbl yn cymryd dim sylw ohono. Roedd arno eisiau diod o ddŵr, a'i dafod goch yn hongian, ond doedd neb yn cynnig diferyn iddo.

Daeth dyn da o'r enw Roche ar hyd y ffordd. Rhedodd y ci bach ato a dechrau ysgwyd ei gynffon. Tynnodd botel o ddŵr o hen fag budr ar ei gefn a rhoddodd ddiod i'r ci bach. "Ar goll wyt ti?" meddai wrtho. "Tyrd efo mi."

Aeth y ddau efo'i gilydd i'r pentref cyfagos. Roedd yr hen gi bach wrth ei fodd. Roedd y rhan fwyaf o bobl y pentref yn wael. Roedd y pla wedi taro'r pentref. Roedd rhywun ym mhob un o'r tai yn wael gan fod y pla wedi taro'r ardal. Aeth yr hen ŵr a'r ci bach i'r ysbyty i geisio helpu'r bobl wael.

Gofynnodd un o'r meddygon i'r dyn da, "Ydych chi ddim ofn dal y salwch sy'n mynd drwy'r pentref?"

"Na," meddai Roche, "fe fydd Duw yn siŵr o ofalu amdanaf."

Roedd y cleifion yn falch o weld Roche, ac yn arbennig y ci bach. Byddai'n dilyn Roche i bob man; weithiau byddai'n neidio o wely i wely gan ysgwyd ei gynffon. Ond un bore roedd Roche yn teimlo'n sâl. Roedd ef ei hun wedi dal y salwch oedd yn mynd drwy'r pentref. Penderfynodd adael yr ysbyty rhag iddo roi mwy o waith i'r meddygon. Cerddodd gyda'r ci bach tua'r goedwig. Ond roedd yn rhy wan. Syrthiodd i gysgu o dan goeden fawr. Pan ddeffrodd yn y bore roedd y ci yn sefyll wrth ei ochr a thorth o fara yn ei geg. Roedd wedi mynd i dŷ'r coedwigwr i chwilio am fwyd

i'w feistr. Ond roedd nid yn unig wedi dod â bwyd iddo ond hefyd wedi arwain y coedwigwr i weld ei feistr. Cododd y coedwigwr Roche yn ei freichiau a'i gario i'w dŷ.

Bu Roche a'r ci bach yno am ddyddiau a'r coedwigwr a'i wraig yn gofalu amdanyn nhw. Erbyn diwedd yr wythnos roedd Roche yn well o lawer a chychwynnodd unwaith eto ar ei daith efo'r ci bach. Roedd yn benderfynol iawn o fynd yn ôl i'r pentref i ofalu am bobl oedd yn wael.

"Gan fy mod i wedi gwella, rwyf am helpu pobl eraill i wella hefyd," meddai. Treuliodd weddill ei oes yn helpu pobl mewn angen.

"Iachaodd ef lawer oedd yn glaf dan amrywiol afiechydon."

Marc 1:34

O Dduw,
bydd yn garedig at bawb sy'n sâl.
Amen.

Pan oedd Iesu yn dod ar draws pobl wael roedd yn eu gwella. Pwy sy'n gwella'r cleifion heddiw?

Roche